------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Ionawr 2020

Amser: 09.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwygio@cynulliad.cymru


## Rhag-gyfarfod preifat

(09.00-09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Ethol Cynulliad mwy amrywiol - sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(09.15-10.30) (Tudalennau 1 - 27)

Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Elaina Chamberlain, Pennaeth Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-3-20 Papur 1 - Briff ymchwil [Saesneg yn unig]

## 3 Papurau i'w nodi

(10.30)

3.1 Llythyr gan y Llywydd – gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 2 Rhagfyr 2019

(Tudalennau 28 – 32)

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-03-20 – Papur i'w nodi 1

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.30)

## 5 Ethol Cynulliad mwy amrywiol – ystyried y dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(10.30-10.45)

## 6 Capasiti'r Cynulliad – ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law yn y digwyddiad trafod gyda rhanddeiliaid ar 6 Ionawr 2020

(10.45-11.00) (Tudalennau 33 – 47)

**Dogfennau atodol:**

CAER(5)-3-20 Papur 2 – Nodyn o'r digwyddiad trafod gyda rhanddeiliaid [Saesneg yn unig]

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

**CAER(5)-3-20 Papur i'w nodi 1**

Dawn Bowden AC
Cadeirydd
Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf: PO784/EJ/TJ

17 Ionawr 2020

Annwyl Dawn

Diolch i chi am eich gohebiaeth ar 10 Rhagfyr 2019, lle gwnaethoch chi godi nifer o gwestiynau ar gapasiti ac amrywiaeth ar ôl imi ddod i'ch pwyllgor ar 2 Rhagfyr 2019.

Oherwydd ichi ofyn am ymatebion i'r cwestiynau hyn erbyn terfynau amser gwahanol, rwy'n ymateb yn yr ohebiaeth hon i'ch cwestiynau ar amrywiaeth yn unig.

Yn eich gohebiaeth, gwnaethoch nodi y byddai eich Pwyllgor "yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am sut y gallai camau i annog amrywiaeth, er enghraifft, gofynion data amrywiaeth anhysbys o ran ymgeiswyr, neu gwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol, gael eu fframio er mwyn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, y cymalau cadw a allai fod yn berthnasol, a'r dadleuon a allai gael eu datblygu er mwyn i gamau o'r fath fod o fewn cymhwysedd."

Tra bod dadleuon dilys nad yw'r pŵer i geisio cyflawni Cynulliad â chydbwysedd rhwng y rhywiau wedi'i gadw, gellir ystyried bod cadw 'Cyfle cyfartal' yn cyfyngu gallu'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â materion etholiadol yn anfwriadol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl asesu cymhwysedd heb gynigion deddfwriaethol penodol i'w hystyried.

Efallai y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol imi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd ar 27 Tachwedd 2018, i ofyn ei farn ynghylch sut y gellid sicrhau bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn gliriach yn hyn o beth. Mae'r ohebiaeth hon hefyd yn amlinellu rhai o'r dadleuon posibl ynghylch a yw ceisio cyflawni Cynulliad â chydbwysedd rhwng y rhywiau yn fater a gadwyd yn ôl.

Rwyf wedi atodi copi o fy ngohebiaeth, ac ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol ar 19 Rhagfyr 2018, i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



Y tu hwnt i'r ystyriaethau hyn, rwy'n ymwybodol fy mod yn gyfrifol o dan Reol Sefydlog 26.4 am roi barn ynghylch a yw cynigion deddfwriaethol penodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Gobeithio y byddwch felly'n gwerthfawrogi pam efallai na fyddai'n briodol imi roi barn ar sut y gallai cynigion damcaniaethol gael eu fframio i ddod o fewn cymhwysedd. Yn lle hynny, byddwn yn argymell bod y Pwyllgor yn gwahodd ei ysgrifenyddiaeth i ddarparu dadansoddiad iddo o'r dadleuon cyfreithiol posibl yn hyn o beth.

Yn eich gohebiaeth, gwnaethoch nodi hefyd y byddech yn croesawu fy marn ar y graddau y mae'r fframwaith datganoli cyfredol yn galluogi casglu data ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad, ac unrhyw gamau y gallai Comisiwn y Cynulliad - neu eraill - eu cymryd yn hyn o beth heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth.

Yn absenoldeb deddfwriaeth, mae'n bosibl mewn theori casglu a chyhoeddi data am amrywiaeth ymgeiswyr yn wirfoddol. Fodd bynnag, rhaid bod sail glir, gyfreithlon i brosesu a chyhoeddi data personol, a byddai casglu a chyhoeddi data ymgeiswyr o reidrwydd yn dibynnu ar gydsyniad gwirfoddol yr ymgeiswyr hynny.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod y Panel Arbenigol wedi nodi mai un o'r heriau annatod wrth gefnogi amrywiaeth yw'r anhawster wrth adnabod a chategoreiddio'r rheini sy'n ymgorffori nodweddion gwarchodedig gwahanol. Roedd y Panel Arbenigol o'r farn nad oedd casglu a chyhoeddi data am amrywiaeth ymgeiswyr yn wirfoddol yn ddigonol at y diben hwn.

Edrychaf ymlaen at ymateb i'ch cwestiynau ar gapasiti hefyd.

Yn gywir,



Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

**CAER(5)-3-20 Papur i'w nodi 1**

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

27 Tachwedd 2018

Annwyl Alun

**Cyfle cyfartal a threfniadau etholiadol y Cynulliad**

Mae Deddf Cymru 2017 yn datganoli pwerau i'r Cynulliad dros ei etholiadau ei hun, a daeth y pwerau hyn i rym ym mis Ebrill 2018. Byddwch yn ymwybodol fy mod yn arwain cynigion i ddiwygio'r Cynulliad a'i drefniadau etholiadol, gan gynnwys ystyried amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr.

Rwyf wedi cael ar ddeall y gallai 'Cyfle cyfartal,' fel mater a gedwir yn ôl, gyfyngu'n anfwriadol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â materion etholiadol. Felly, byddai'n dda gennym gael clywed eich barn ynghylch y dull y gellid cadarnhau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn hyn o beth, a'r amserlen ar gyfer cadarnhad o'r fath.

Ym mis Rhagfyr 2017, argymhellodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad y dylid cynyddu nifer yr Aelodau i rhwng 80 a 90. I gynyddu maint y ddeddfwrfa, rhaid newid y modd y caiff Aelodau eu hethol. Argymhellodd y Panel y dylai'r newid hwn gynnwys mesurau i gefnogi a hybu proses o ethol deddfwrfa sy'n adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Gallai mesurau o'r fath gynnwys integreiddio cwota rhywedd yn y system etholiadol, cyflwyno gofynion deddfwriaethol i bleidiau gwleidyddol gyhoeddi data dienw ar amrywiaeth eu hymgeiswyr.

Pe bai Comisiwn y Cynulliad yn penderfynu deddfu i'r perwyl a nodir uchod, fe fydd angen i'r Comisiwn archwilio sut y gellid bwrw ymlaen gyda'r argymhellion perthnasol.

Mae paragraff 187 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi bod cyfle cyfartal yn fater a gedwir yn ôl, er bod hyn yn cynnwys nifer o eithriadau.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales



Y diffiniad o gyfle cyfartal ym mharagraff 187 yw: "the prevention, elimination or regulation of discrimination". Diben unrhyw ddeddfwriaeth y byddai'r Comisiwn y Cynulliad yn ei chyflwyno i roi argymhellion y Panel Arbenigol ar waith fyddai sicrhau mwy o amrywiaeth ymysg cynrychiolwyr etholedig drwy sicrhau mwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau yn achos ymgeiswyr etholiadol. Ni fyddai hyn yn ymwneud â'r swyddogaethau a bennir yn y diffiniad o gyfle cyfartal ym mharagraff 187.

Mae'n amlwg, felly, o ran y prawf 'diben ac effaith', y byddai'n rhesymol dadlau nad yw ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Cynulliad yn fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, nid oes eithriad penodol ar hyn o bryd ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. Byddai cadarnhad bod y cymal ar gyfleoedd cyfartal wedi'i gadw nôl drwy Orchymyn o dan Adran 109 yn cael gwared ar unrhyw amheuaeth yn hyn o beth, ac yn rhoi eglurhad llawn ynghylch datganoli cymhwysedd deddfwriaethol dros drefniadau etholiadol y Cynulliad. Byddai eglurhad o'r fath yn galluogi'r Cynulliad ei hun i benderfynu a yw'n dymuno ymateb i argymhellion y Panel Arbenigol, a  sut y dylid gwneud hynny.

Rwy'n croesawu'r modd y mae eich swyddogion wedi bod yn barod i ymgysylltu â swyddogion Comisiwn y Cynulliad yn ystod y trafodaethau cychwynnol ar y materion hyn. Edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw Orchymyn o dan Adran 109 er mwyn llywio trafodaethau trawsbleidiol ar ddiwygio etholiadol.

Yn gywir

Elin JonesY Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

cc Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog

UK Government
Llywodraeth y DU

Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd CF10 4DQ

www.gov.uk/wales | www.gov.uk/cymru

Y Swyddfa Breifat
04 JAN 2019
PO 578
Private Office

Elin Jones AM
Llywydd
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ref: 610SUB 18

19 Rhag. December 2018

Annwyl Elin,

Thank you for your letter of 27 November regarding the possible implications of the 'equal opportunities' reservation for measures to increase diversity in the Assembly.

As you note, there may be scope to argue that the proposals outlined in your letter do not engage the reservation at paragraph 187 of Schedule 7A of the Government of Wales Act 2006 for 'equal opportunities'. I am concerned therefore that inserting an exception to the reservation at this stage may be unnecessary and could, rather than clarifying the reservation, cast doubt on its intended scope. I therefore recommend that our officials continue to work together to explore this matter in detail.

I am copying this letter to the First Minister.

Yours,

**Rt Hon Alun Cairns MP**
**Secretary of State for Wales**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon